# Trydan yn y cartref

| | |
|---|---|
| DYLAN | Hei, mae'r parti ma'n mynd yn dda ond'yw e Steve? Ma'r rhai gorau yn gallu bod yn drydanol! |
| | Hei Ada! Chwaraea'r miwsig eto. |
| ADA | Mae'n flin gen i Dylan. 'Dyw hynny ddim yn bosib. |
| DYLAN | Pam lai? |
| ADA | Gwirio pethau… Edrycha ar y plwg. |
| DYLAN | Sori am hyn bois. Hei Ada, am be' dw i'n chwilio? |
| ADA | Ffiws. Tiwb bach gyda gwifren denau ynddo. Pan mae'r cerrynt trydanol sy'n rhedeg drwy ffiws yn rhy uchel, mae'r wifren yn toddi. Mae hyn yn torri'r cylched ac yn stopio'r trydan rhag llifo. |
| DYLAN | Ydy. Mae 'di chwythu. 5 amp. Mae'n siŵr alla i ffeindio un sbâr yn sied Dad. |
| ADA | Cyfrifo. Mae pŵer wedi ei rannu â foltedd yn hafal i'r cerrynt. 1,150 wat yw pŵer dy speakers, ac mae 230 folt yn teithio drwyddynt. Mae 1,150 wedi ei rannu â 230 yn hafal i 5 amp. |
| DYLAN | Dyma un! |
| ADA | Mae dy speakers angen 5 amp. Cofia, bydd cerrynt o 5 amp yn torri ffiws 5 amp. Dewisa ffiws sy'n fwy na'r cerrynt sydd ei angen. Ffiws 13 amp sydd orau. |
| DYLAN | Dal ddim yn gweithio Ada. |
| ADA | Gwirio pethau.. |
| | Mae pob soced yn y tŷ wedi eu cysylltu trwy'r prif gylch. Mae gan gylched cylch trydanol dair gwifren: y wifren fyw, sy'n cludo'r cerrynt trydanol, y wifren niwtral sy'n cwblhau'r cylched drwy anfon y cerrynt yn ôl a'r wifren ddaearu, sy'n dy arbed di rhag sioc drydanol pan mae nam ar ddyfais fetel dargludol. |
| DYLAN | Wy'n siŵr bod gwifrau'r tŷ'n iawn Ada. Be' ti'n trio'i ddweud? |


© Hawlfraint BBC

ADA — Gall cerrynt naill ai fynd i un cyfeiriad, sef cerrynt union, neu gall fynd i ddau gyfeiriad, sef cerrynt eiledol.

DYLAN — Iawn Ada, ond s’mo hynny’n esbonio pam mae’r pŵer wedi diffodd.

ADA — Gwirio pethau…

Mae’r pŵer wedi diffodd. Cer i edrych ar dy dorrwr cylched. Mae torrwr cylched bychan neu dorrwr cylched gweddilliol yn gweithio’n wahanol i ffiwsiau.

Pan mae offer trydanol mewn cylched cylch yn debygol o orlwytho, mae’r torrwr cylched yn synhwyro newid yn y cerrynt. Mae’r ymateb yn sbarduno electromagnet i symud bollt â sbring ynddi. Mae’r follt yn dal rhan o’r cylched yn ei le. Nawr ei fod wedi symud, mae’r cylched wedi torri. Dyna yw torrwr cylched.

DYLAN — Beth?

ADA — Coda’r switsh Dylan.

DYLAN — Diolch i ti Ada. Iawn te, nôl i’r parti trydanol ‘ma.


© Hawlfraint BBC